Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**


| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Meilyr Rowlands |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 02920 446 446 |


| | |
|---|---|
| **Dyddiad / Date:** | 05/07/2020 |
| **Pwnc / Subject:** | Ymgynghoriad gan Ofal Cymdeithasol Cymru ar ddatblygiad fframweithiau prentisiaeth ar lefelau 4 a 5 ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac ym maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant. |

**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

**Cyflwyniad**

Mae Estyn yn cytuno'n fras â'r cynigion ar gyfer y fframweithiau prentisiaeth newydd ar lefelau 4 a 5 ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant. Yn benodol, rydym yn cefnogi cyflwyno llwybrau lefel 4 a lefel 5. Mae'r cyrsiau hyn yn cynnig llwybr mwy ymarferol a chyraeddadwy i swyddi arwain a rheoli, ac i ddysgu uwch i'r rhai sydd wedi cymhwyso ar lefel 3. Bydd y fframwaith hefyd yn rhoi cyfle i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn dymuno bod yn rheolwyr wella'u medrau, eu dealltwriaeth a'u hymarfer, i'w cynorthwyo i gyflawni'u dyletswyddau yn yr amrywiaeth o leoliadau gofal cymdeithasol. Codwyd y materion hyn yn adroddiad Estyn: Ansawdd addysg a hyfforddiant ym maes iechyd a gofal cymdeithasol oedolion, Mai 2016.

Dyma'r cynigion yr awgrymwn y dylid eu hailystyried:

- y cynnig i osod y gofyniad medrau hanfodol ar lefel 2 yn hytrach na lefel 3
- y cynnig i beidio â chynnwys llythrennedd digidol yn y fframwaith newydd.

Credwn fod y gofyniad lefel 2 ar gyfer medrau hanfodol cyfathrebu a chymhwyso rhif yn rhy isel, gan fod prentisiaid sy'n dilyn fframweithiau ar lefelau 4 a 5 yn aml yn dal swyddi rheoli cyfrifol. Mae angen medrau llythrennedd a rhifedd cryf arnynt i gefnogi a rheoli'r bobl y maent yn eu goruchwylio, i ysgrifennu adroddiadau, i gynnig eiriolaeth ar ran pobl mewn lleoliadau gofal ac i reoli cyllid.

Argymhellwn y dylai llythrennedd digidol fod yn rhan orfodol o'r fframwaith cymwysterau. Nid yn unig y mae'n hanfodol bod y prentisiaid hyn yn datblygu medrau digidol cadarn eu hunain, ond maent yn debygol o fod yn gyfrifol am helpu plant ac oedolion eraill i ddatblygu'r medrau hyn. Yn benodol, mae'n bwysig hefyd eu bod yn gallu arwain eraill ar ddefnyddio technegol ddigidol yn ddiogel.

Nid yw dogfen ymgynghori'r Fframwaith Prentisiaeth yn cyfeirio at y Gymraeg nac yn datgan p'un a yw'r llwybrau arfaethedig ar gael i fyfyrwyr trwy gyfrwng y Gymraeg ai peidio. Teimlwn yn gryf y dylai'r fframweithiau ddatgan sefyllfa'r Gymraeg yn glir. Dylai pob llwybr fod ar gael i ddysgwyr trwy gyfrwng y Gymraeg neu o leiaf yn ddwyieithog.

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

1. **Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gael 20 llwybr ar draws y maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a'r maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant?**

   Ydym

   Mae nifer y llwybrau yn adlewyrchu ystod y lleoliadau a'r medrau galwedigaethol a rheoli y mae eu hangen ar gyfer y sector hwn. Mae'r nifer hefyd yn galluogi dysgwyr i ddilyn y llwybr sydd fwyaf addas i'w hanghenion a'u dewisiadau proffesiynol a phersonol.

2. **Oes gennych chi unrhyw sylwadau penodol am addasrwydd unrhyw un o'r 20 llwybr?**

Defnyddiwch rif y llwybr fel cyfeirnod wrth ateb.

Nac oes. Mae’r holl lwybrau yn berthnasol iawn ac yn adlewyrchu natur y medrau a’r dulliau y mae eu hangen ar gyfer gweithio mewn lleoliadau penodol.

**3. Ydych chi’n cytuno â’r cynnig i roi opsiynau i bobl wneud y cymhwyster Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli, ynghyd ag un o’r llwybrau arbenigol yn Lefel 4 (llwybrau 8, 13 ac 19 yn benodol)?**

Ydym

Rydym yn cytuno â’r cynnig i gynnig opsiynau i bobl ymgymryd â chymwysterau Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli ynghyd â’r maes arbenigedd o’u dewis ar lefel 4. Byddai hyn yn rhoi cyfleoedd defnyddiol i ddysgwyr ddatblygu’u medrau arwain a rheoli. Mae’r strategaeth hon yn galluogi dysgwyr i ennill cipolygon gwerthfawr i waith arweinwyr a rheolwyr ac mae’n cynnig sylfaen iddynt astudio llwybr Rheoli lefel 5 yn y dyfodol. Mae’r dull hwn yn helpu i liniaru’r sefyllfa bresennol, sef bod y rheiny nad ydynt mewn swyddi rheoli’n ei chael hi’n anodd ennill y profiad rheoli ymarferol yn y gwaith y mae arnynt ei angen i ddilyn cymwysterau lefel 5 a chymwysterau lefel uwch.

**4. Ydych chi’n cytuno â'r cynnig i gadw lefel sgiliau hanfodol ar lefel 2?**

Nac ydym

Mae’r cynnig yn awgrymu gosod medrau hanfodol ar lefel 2 yn unol â sectorau eraill yng Nghymru ar gyfer fframweithiau lefel 4 a 5. Er bod hyn yn sicrhau ychydig gysondeb rhwng fframweithiau, credwn fod y lefel yn rhy isel, yn enwedig yn achos llythrennedd. Mae prentisiaid sy’n dilyn fframweithiau lefel 3 ac uwch yn y lleoliadau hyn mewn swyddi cyfrifol iawn. Gelwir arnynt i gofnodi gweithgareddau dyddiol, ysgrifennu adroddiadau am y bobl y gofalant amdanynt a chwblhau adroddiadau hanfodol am ddigwyddiadau. Er enghraifft, mae ar y rheiny sy’n gweithio mewn gwasanaethau plant ac mewn lleoliadau lle y maen nhw’n eirioli ar gyfer gallu meddyliol neu iechyd meddwl y bobl yn eu gofal, angen lefel fwy soffistigedig o eirfa a gramadeg gan fod yr adroddiadau hyn yn cael eu defnyddio gan weithwyr proffesiynol eraill sy’n gwneud penderfyniadau pwysig am bobl. Yn aml, mae’r rheiny sydd eisoes mewn swyddi rheoli yn fentoriaid ac, weithiau, yn aseswyr ar gyfer prentisiaid sy’n astudio cymwysterau lefel 2 a lefel 3. Felly, mae ar y rheiny sy’n gweithio ar lefel 4 neu lefel 5 angen meistrolaeth dda ar lythrennedd er mwyn cefnogi’r bobl a oruchwyliant. Yn gyffredinol, mae ar reolwyr angen medrau llythrennedd a rhifedd effeithiol sy’n eu galluogi i reoli staff a chyllid. Hefyd, gallai prentisiaid elwa o gyfleoedd i ddatblygu’u medrau hanfodol i lefel uwch mewn meysydd sy’n benodol i’w galwedigaeth. Er enghraifft, mae’n debygol y bydd y rheiny mewn gofal, dysgu, chwarae a datblygiad plant yn chwarae rhan sylweddol mewn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant, a bydd angen gwybodaeth sicr a medrau cadarn arnynt yn y meysydd hyn.

5. **Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i beidio â chynnwys llythrennedd digidol fel sgil hanfodol?**

Nac ydym

Credwn y dylai Llywodraeth Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru ailystyried yr elfen hon o'r fframwaith cymwysterau. Argymhellwn y dylai llythrennedd digidol fod yn rhan orfodol o'r fframwaith cymwysterau.

Mae agenda "Digidol Anedig" Llywodraeth Cymru yn amlinellu'r angen i sicrhau bod modd defnyddio medrau digidol i gyflawni bron pob dysgu yn y dyfodol. Nid yn unig y mae'n hanfodol bod y prentisiaid hyn yn datblygu medrau digidol cadarn eu hunain, ond maent yn debygol o fod yn gyfrifol am helpu plant ac oedolion eraill i ddatblygu'r medrau hyn yn eu gyrfa yn y dyfodol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, neu ym maes gofal, chwarae a dysgu plant.

Bellach, mae gan lawer o leoliadau gofal cymdeithasol systemau cynllunio rheolaeth a gofal electronig, lle y cedwir gwybodaeth am bobl yn eu gofal a gwybodaeth am staff. Hefyd, caiff y systemau hyn eu defnyddio at ddiben cynllunio ymarferol, fel rotâu gwaith mewn lleoliadau cartrefi gofal plant ac oedolion. Mae'n bwysig bod staff, yn enwedig ar lefelau cymwysterau uwch, yn gallu gweithredu systemau yn effeithiol a deall materion rhagweld problemau, diogelwch a diogelu sy'n cael sylw yn y cymhwyster medrau Llythrennedd Digidol hanfodol ar lefel 2. Rydym yn cydnabod nad oes gan bob lleoliad gofal plant gysylltiad â'r rhyngrwyd a gall hyn gyfyngu ar gyfleoedd i brentisiaid ymarfer eu medrau digidol.

Mewn lleoliadau gofal oedolion, mae defnydd cynyddol o TGCh a thelathrebu, yn enwedig ers pandemig COVID-19. Yn aml, cysylltiadau fideo fu'r unig ffordd i breswylwyr gysylltu ag anwyliaid. Hefyd, mae'r rhan fwyaf o feddygfeydd bellach yn cynnal 'ymgynghoriadau' fideo gyda phreswylwyr cartrefi gofal. Dywed llawer o gartrefi gofal fod hyn wedi arwain at ryngweithio gwell a mwy mynych rhwng meddygon teulu a chartrefi gofal. Felly, mae'n hanfodol bod lefel dda o fedrau digidol gan yr holl staff mewn lleoliadau gofal.

6. **Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill am y fframweithiau prentisiaeth arfaethedig?**

Gallai cyflwyno llwybrau lefel 4 a lefel 5 helpu i gadw staff mewn rolau wyneb yn wyneb mewn lleoliadau gofal. Mae'n gwella'r strwythur gyrfaol ac yn ychwanegu at broffesiynoli gwasanaethau sy'n aml yn cael eu tanbrisio mewn cymdeithas, gan roi hefyd i staff y medrau y mae arnynt eu hangen i gyflawni eu rolau yn fwy effeithiol.

**7. Hoffem wybod eich safbwyntiau ar yr effeithiau y byddai pob un o'r cynigion o fewn yr ymgynghoriad hwn yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar y canlynol:**

**i) Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg**
**ii) Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?**

Rhowch eich sylwadau yn y lle gwag isod:

Nid yw dogfen ymgynghori'r Fframwaith Prentisiaeth yn cyfeirio o gwbl at y Gymraeg nac ychwaith yn pennu a yw'r llwybrau arfaethedig ar gael i fyfyrwyr trwy gyfrwng y Gymraeg ai peidio.

Mae Estyn yn teimlo'n gryf y dylai'r fframweithiau ddatgan sefyllfa'r Gymraeg yn glir. Dylai pob llwybr fod ar gael i ddysgwyr trwy gyfrwng y Gymraeg, neu o leiaf yn ddwyieithog. Bydd hyn yn sicrhau bod dysgwyr sydd wedi ymgymryd â'u haddysg cyn-16 trwy gyfrwng y Gymraeg yn gallu parhau â'u hastudiaethau yn Gymraeg, os dyna yw eu dewis. Mae'n hanfodol bod prentisiaid sy'n awyddus i weithio ym maes gofal plant cyfrwng Cymraeg yn datblygu medrau Cymraeg cryf ac yn dod yn fodelau da o iaith ar gyfer y plant yn eu gofal. Hefyd, bydd yn helpu sicrhau cyflenwad o weithwyr sy'n gallu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg mewn lleoliadau gofal ac addysg. Mae hyn yn cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ac uchelgais y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ddatblygu mwy o brentisiaethau cyfrwng Cymraeg.

Yn unol â hyn, mae angen ystyriaeth bellach i sicrhau bod adnoddau cyfrwng Cymraeg sy'n cael eu llunio i gefnogi'r llwybrau dysgu hyn yn cael eu rhyddhau ar yr un pryd yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle yn arbennig o bwysig mewn lleoliadau gofal plant a lleoliadau gofal cymdeithasol oedolion lle'r Gymraeg yw mamiaith y preswylwyr. Mae'n fedr hanfodol wrth ofalu am rywun â dementia sy'n siarad Cymraeg mamiaith. Mae'r rhan fwyaf o leoliadau bellach yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg cystal ag y gallant.

Mewn sector fel gofal cymdeithasol oedolion lle y mae'n aml yn anodd recriwtio staff, mae cyflogi staff sydd wedi'u hyfforddi'n dda ac sy'n hyddysg yn y Gymraeg yn her ychwanegol. Gallai mwy o gyfle i hyfforddi yn Gymraeg helpu i liniaru'r sefyllfa hon.